

Fforwm 50+ Ceredigion 50+ Forum

Cofnodion

Dydd Llun 21 Gorffennaf 2014
Siambr y Cyngor, Penmorfa

Presennol:

Aberaeron: Denise Hicks, Adrian Thomas
Aberteifi: Dr Carol Byrne Jones, Ken Rathbone
Aberystwyth: Megan Jones, Anne Ellin
Tregaron: Mari Morgan
Llandysul: Roger Couch

Yn cynorthwyo:

Cyng. Catherine Hughes Cadeirydd ac Aelod Cabinet
Gweneira Raw-Rees Strategaeth Pobl Hŷn
Geoff Davies Cyfranogi 50+

Ymddiheuriadau:

Aberaeron: Malcolm Sumner
Tregaron: Bill Messer, Cheryl Bulman
Llanbedr PS: Ann Davies
Llandysul: John Davies

Dogfennau a ddosbarthwyd yn y cyfarfod

- Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru – *Byw'n Hirach, Heneiddio'n Dda*
- *Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru* – adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Braslun o raglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a llythyr oddi wrth y Comisiynydd Pobl Hŷn

- Braslun o'r Strategaeth yng Ngheredigion a 'Pwy'di Pwy'
- Cylch Gorchwyl a Phrotocolau Cyfarfodydd Fforwm 50+ Ceredigion
- Holiadur ar flaenoriaethau pobl hŷn ar gyfer datblygu Strategaeth yng Ngheredigion
- Holiadur ar ddatblygu Ceredigion

GWEITHRED:

- **Aelodau'r Fforwm i ystyried y Cylch Gorchwyl erbyn y cyfarfod nesaf.**

Ymgynghori ar flaenoriaethau pobl dros 50 oed ar gyfer datblygu Strategaeth 50+ Ceredigion

Yn dilyn cyflwyniad byr ar gefndir y Strategaeth 50+ yng Nghymru gan Gweneira ystyriwyd flaenoriaethau pobl hŷn ym marn aelodau'r Fforwm:

Cymdeithasol

- mae'r gaeaf yn rhwystredig i bobl hŷn o ran medru cymdeithasu. Dylid edrych ar annog a galluogi pobl i gymeryd rhan drwy'r flwyddyn.
- Mae newydd ddyfodiaid am wella cymunedau ond yn aml ceir ymateb negyddol oddiwrth pobl lleol. Ychwanegwyd gan aelod arall fod yna draddodiad Cymreig o beidio fod y 'ceffyl blaen' – am resymau diwylliannol ac am resymau yn ymwneud â diffyg hyder (heb wneud yn dda yn yr ysgol efallai) a bod mewnfudwyr yn aml gydag uchelgeisiau gwahanol.
- Angen cynllun adfywio gwledig – i rwystro diboblogi gwledig
- Capeli ac eglwysi dal yn bwysig mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft yn Aberaeron mae 50-70 yn mynd i'r eglwys. Mae'r ddefod o siglo dwylo, y te a'r coffi wedyn, y dathlu penblwyddi i gyd yn cyfrannu at sicrhau fod yr henoed yn teimlo'n rhan o'r gymuned. Mae'r henoed yn dibynnu ar eraill i ddod â nhw.
- Mae angen defnyddio rhwydeithiau amrywiol ac ar gyfer pob oedran i ddosbarthu gwybodaeth.
- Os am bostio allan gellid defnyddio rhestrau Cyngorau Sir neu Censws

Amgylcheddol

- Yn Aberaeron, mae trafndiaeth gyhoeddus yn gwella gyda bysus hwyrach ac ar y Sul sy'n galluogi pobl hŷn i fynd i'r capeli a'r eglwysi.
- Cytunwyd fod toiledau yn flaenoriaeth a fod angen sticer amlwg i ddangos i'r cyhoedd pa fusnesau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cyhoeddus
- Adeiladau gwledig yn cau ee ysgolion, capeli, llyfrgelloedd ayb.
- Yn Cei Newydd rhaid talu i barcio i fynd i'r capel – sy'n ofid i bobl hŷn.
- Mae llawer o broblemau bach yn effeithio ar bobl – ee croesfan yn Aberteifi sydd heb weithio ers hir ac sy'n rhwystredig i bobl anabl yn enwedig.

Ariannol

- Tlodi gwledig – pobl yng nghefn gwlad yn dibynnu ar gar
- Technoleg – i sicrhau fod pobl hŷn yn cael y gwasanaethau rhataf mae angen eu dysgu i ddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'r toriadau i addysg oedolion yn ofid.
- Mae'r gost o brynu a rhedeg cyfrifiadur yn ormod i lawer o bobl.
- Mae llawer o bobl hŷn yn defnyddio ffôn ond yn ofni cyfrifiaduron – dylid edrych ar y dechnoleg yma

GWEITHREDOEDD

- **Edrych mewn i sticer ar gyfer busnesau sy'n darparu tai bach i'r cyhoedd**
- **Edrych mewn i'r broblem gyda'r groesfan yn Aberteifi**
- **Gweneira i ddsbarthu'r holiaduron yn electronig er mwyn hwyluso'r broses ymateb**

Ymgynghori ar flaenoriaethau datblygu Ceredigion

Beth yw'r materion sy'n gwynebu eich cymuned chi?

- Colli gwelyau yn ysbyty Aberteifi. Mae awr o drafael i fynd i ysbytai Glangwili, Hwlfordd a Bronglais a dyna'r awr bwysicaf gyda niwed difrifol, strôc neu'r galon er enghraifft. Mae'r newidiadau i wasanaethau iechyd yn ofid mawr i bobl ar draws y sir. Mae fferyllfeydd yn aml yn ceisio llenwi'r bylchau.
- Prinder gofalgwyr yng nghefn gwlad. Nodwyd fod darparwyr newydd yng ngwaelod y sir.
- Apwyntiadau 'ar lein' i weld meddyg. Mae pobl hŷn yn pryderi oherwydd os ydych yn sâl chi'n methu mynd i'r llyfrgell, neu rhyw fan arall, i ddefnyddio cyfrifiadur i wneud apwyntiad.

Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol, diwylliannol ac adnoddau naturiol:

- Mae angen pontio rhwng pobl lleol a mewnfudwyr
- Mae pobl yn poeni am sarnu cefn gwlad felly dylid fod yn ofalus a gwerthuso y busnes/prosiect yn iawn. Rhoes aelod arall enghraifft o brosiect oedd heb gael ei ystyried yn iawn sef y ffordd feic ger Aberystwyth o stâd ddiwydiannol Glan yr Afon i Gapel Bangor. Mae'r ffordd yn beryglus i feicwyr oherwydd traffig cyflym a phrinder lle ond mae dal yn cael ei hyrwyddo.

Petai eich cymuned â £5 mil i'w gwario er budd eich cymuned – ar beth byddech yn gwario'r arian?

- Cyfuno'r arian i greu un pot mawr a fyddai yn gwneud gwahaniaeth. Sicrhau mewnbwn gan bob cymuned trwy ddefnyddio rhwydweithiau ee papurau bro
- Defnyddio'r arian i fynd at bobl hŷn yn y gymuned
- Talu am doiledau, cyfrifiaduron, llyfrgell

- Roedd bysus mini y Cyngor Sir yn arfer cael eu defnyddio i fynd â grwpiau ar dripiâu ond fe ddaeth yr arfer i ben oherwydd arian.
- Yn dilyn cau London House yn Aberaeron falle gellid dalu am leoliad unwaith y mis. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y llyfrgell yn Aberaeron yn fan cyfarfod nawr ond os nad oedd yn llwyddiannus hoffai gael gwybod.

Ychwanegodd Gweneira fod Arian i Bawb y Loteri Fawr i fyny at £5 mil a'i bod hi yn cefnogi grwpiau cymdeithasol i wneud ceisiadau. Eisiau arian ar gyfer tripiâu roedd y grwpiau yn bennaf ond ambell dro roeddent eisiau prynu offer hefyd i hwyluso cymdeithasu ee i ddangos ffilmiau ayb.

GWEITHREDOEDD

- **Gwahodd Gill Davies, Cyfarwyddwr Sir a Chomisiynydd Hywel Dda i ddod i siarad gyda'r Fforwm am ddyfodol gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion.**
- **Gweneira i ddanfon yr holiadur yn electronig i hwyluso'r broses ymateb**

Agenda y cyfarfod nesaf - 8 Medi 2014

- Cylch Gorchwyl
- Gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion - Hywel Dda

Dyddiadau cyfarfodydd 2014

- **2pm Dydd Llun 8 Medi 2014**
- **2pm Dydd Llun 8 Rhagfyr 2014**

Cynhelir y cyfarfodydd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron

Gweneira Raw-Rees, Cydlynnydd Strategaeth Pobl Hŷn Ceredigion:
gweneira.raw-rees@ceredigion.gov.uk 01545 574019 / 07968 694632